

# amserbeibl

## Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Luc 1: 5-25


### Stori 1 Sachareias ac Elisabeth

Roedd Sachareias a'i wraig Elisabeth yn drist iawn. Roedden nhw eisiau cael plentyn. Roedden nhw wedi gweddio a gofyn i Dduw am blentyn am amser hir. Nawr roedden nhw'n hen a doedden nhw ddim yn meddwl y byddai Elisabeth yn gallu cael babi. Un diwrnod, daeth tro Sachareias i weithio yn y deml.



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Luc 1: 13  
Gofynnwch am help i  
chwilio am yr adnod hon

**C** Ysgrifennwch enw'r dyn, ei wraig a'r man lle'r oedd yn gweithio o dan y lluniau.






6

Yn sydyn, daeth angel yr Arglwydd. Roedd ofn ar Sachareias. Dywedodd yr angel "Paid â bod ofn. Mae Duw wedi clywed dy weddi. Bydd dy wraig Elisabeth yn cael mab. Ioan fydd ei enw."

**C** Llanwch y bylchau i ddangos beth a ddywedodd yr angel

Bydd dy w \_ \_ \_ \_ Elisabeth yn cael

m \_ \_ . l \_ \_ \_ fydd ei enw.

6

Dyweddodd yr angel y byddai'r babi newydd yn tyfu'n ddyn arbennig iawn. Byddai Duw yn ei ddefnyddio i wneud i lawer o bobl drystio'r Arglwydd a stopio bod yn ddrwg.

Doedd Sachareias ddim yn gallu credu geiriau'r angel. Roedd ef a'i wraig Elisabeth yn rhy hen i gael babi. Dywedodd hynny wrth yr angel.



Yna, dywedodd yr angel wrth Sachareias na fyddai'n gallu siarad nes bod y babi'n cael ei eni achos nad oedd wedi ei gredu.


**C** Ticiwch y brawddegau isod ✓ neu rhowch groes X i ddangos a ydynt yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**.

Roedd Sachareias yn dweud bod ei wraig yn rhy hen i gael babi. ....

Credodd Sachareias yr angel. ....

Dyweddodd Gabriel y byddai Sachareias yn ddall. ....

6



Pan ddaeth Sachareias allan o'r Deml, doedd e ddim yn gallu siarad â'r bobl. Roedd pawb yn meddwl ei fod wedi gweld rhywbeth arbennig.

Cyn hir, roedd Elisabeth yn disgwyl babi. Roedd geiriau'r angel wedi dod yn wir.

**C** Dyma a ddywedodd yr angel wrth Sachareias:

"Mae Duw wedi  
clywed dy  
weddi."

2

**Lliwch y geiriau - Luc 1: 13.**

Mae Duw yn clywed ein gweddiau bob amser. Mae E eisiau i ni gredu y bydd yn eu hateb nhw.